*Ysgol Bro Alun*
*Rhodfa Delamere*
*Gwersyllt*
*Wrecsam*
*LL11 4NG*
*Ffôn: 01978 269580*
*Ffacs: 01978 269589*

Ysgol Bro Alun
Delamere Avenue
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Tel: 01978 269580
Fax: 01978 269589

# YSGOL BRO ALUN

**Mr Osian Jones BA**
***Pennaeth* Head Teacher**
**Safle gwe / *Website:*** www.ysgolbroalun.cymru
*E-bost*/E-mail: **mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk**

Ionawr 8fed 2022

Annwyl rieni a gwarchodwyr

Gobeithio fod pawb yn iach a wedi mwynhau'r gwyliau. Isod mae gwybodaeth am ychydig o addasiadau sydd angen i ni wneud yn yr ysgol yn dilyn diweddariad i'r Canllawiau i Ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn sgil sefyllfa bresenol y pandemig. Mae rhain yn para am fis Ionawr ar hyn o bryd – byddwn yn eich diweddaru ar unrhyw newidiadau pan gawn ddiweddariad o'r Llywodraeth.

**Gollwng a chasglu plant yn yr ysgol**

- Amseroedd clwb brecwast yn aros yr un fath (8:00am- 8:20am yn £1, 8:20am-8:40am am ddim)
- Amser gollwng (os nad yn defnyddio y clwb brecwast) yn aros yr un fath - 8:45am - 9:00am
- Amser y clwb ar ôl ysgol yr un fath: 3:15pm – 5:10pm
- **Amser casglu yn y prynhawn (Derbyn i Bl 6) yn newid i fod unrhyw bryd rhwng 3:00pm a 3:15pm. Mae hyn yr un fath ac oedd yn ystod y flwyddyn addysgol ddiwethaf ac yn cael ei ail gyflwyno i leihau niferoedd ar dir yr ysgol yr un pryd.**
- **Un oedolyn o bob teulu i ollwng a chasglu plant. Eto, mae hyn er mwyn lleihau niferoedd ar dir yr ysgol ac yr un fath a phan ail agorwyd yn dilyn cyfnodau clo llynedd.**
- **Oedolion i wisgo gorchudd wyneb wrth ollwng a chasglu heblaw eu bod wedi eu heithrio rhag gwneud.**
- **Cadwch at bellter cymdeithasol oddi wrth eraill.**
- **Pawb i ddilyn y system un ffordd o amgylch yr ysgol wrth ollwng a chasglu**
- Rhieni Meithrin – dim newid os yn casglu ar ddiwedd y bore: 11:30am fel arfer ac yn medru mynd nôl lawr y llwybr yn dilyn casglu eich plentyn o'r dosbarth.
- A wnewch chi rannu'r wybodaeth yma efo unrhyw un fydd yn gollwng a chasglu plant yn yr ysgol os gwelwch yn dda.

**Clwb Brecwast**

- A wnewch chi ddim ond defnyddio y clwb brecwast os oes gwir rhaid os gwelwch yn dda a dim ond os oes rhaid i chi fynd i'ch gwaith, er mwyn i ni gadw y niferoedd sy'n mynychu mor isel a phosib. Bydd y disgyblion yn eistedd ar fyrddau efo disgyblion o'u dosbarthiadau yn y clwb a ddim yn eistedd efo disgyblion o ddosbarthiadau eraill.

**Swigod**

- Byddwn yn dychwelyd i gadw dosbarthiadau arwahan cymaint a phosib yn yr adeilad a ni fyddant yn cymysgu ar gyfer unrhyw ddysgu. Bydd gwahanol adrannau yr ysgol yn parhau i gael amser chwarae arwahan i'w gilydd.

**Amser cinio**

- Byddwn yn gwneud addasiadau i drefniadau amser cinio er mwyn cael cyn lleied a phosib o ddisgyblion yn y neuadd ar yr un pryd. Ni fydd disgyblion o wahanol ddosbarthiadau yn eistedd ar yr un byrddau a'i gilydd, bydd pellter cymdeithasol rhwng y byrddau a bydd drysau allanol y neuadd ar agor cymaint a phosib i sicrhau cylchrediad o awyr iach. Bydd y byrddau yn cael eu diheintio rhwng gwahanol eisteddiadau.

**Glanhau**

- Bydd y staff yn parhau i lanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml e.e. byrddau yn gyson yn ystod y dydd

**Toiledau**

- Byddwn yn dychwelyd i ddosbarthiadau yn defnyddio toiledau / ciwbicls penodol (os yn berthnasol)

**Awyru**

- Mae cael cymaint o awyr iach a phosib i'r dosbarthiadau yn hynod o bwysig i osgoi lledaeniad y feirws. Byddwn yn gwneud hyn drwy gadw ffenestri / drysau ar agor cymaint a phosib tra ar yr un pryd yn sicrhau fod y tymheredd mor gyffyrddus a phosib i bawb. Mae yna fonitor CO2 wedi ei roi mewn ym mhob dosbarth pan gafodd yr ysgol ei hadeiladu a fydd yn dangos pan fod lefelau CO2 yn mynd yn uchel, gan agor ffenestri yn awtomatig er mwyn cynyddu cylchrediad yr awyr iach yn yr ystafell.

**Staff**

- Bydd staff yr ysgol yn cadw at bellter cymdeithasol ble mae'n bosib ac yn gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cymdeithasol ac wrth symud o gwmpas yr adeilad. Does dim gofyn i'r disgyblion wisgo gorchuddion wyneb, ond mae croeso iddynt wneud os ydent yn dymuno.
- Bydd holl staff yr ysgol yn cael eu hannog yn gryf i wneud prawf LFT dair gwaith yr wythnos ar foreau Llun, Mercher a Gwener gan ddilyn yr hyn a nodir yn y canllawiau i ysgolion.

Fel nodwyd ar ddechrau'r llythyr, am fis Ionawr y mae'r uchod yn eu lle i ddechrau a'r gobaith yw y byddwn yn gallu llacio'r mesurau ar ôl hynny, yn ddibynol ar y sefyllfa leol a chenedlaethol.

Er bod lefel staffio yn iawn ar hyn o bryd, rydym yn bryderus am sut byddant yn cael eu heffeithio dros yr wythnosau sydd i ddod, yn enwedig efo y prinder staff cyflenwi sydd ar gael. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw'r ysgol ar agor ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb i bob disgybl. Os bydd rhaid symud rhai dosbarthiadau at ddysgu ar lein, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd a phosib i chi er y gallai hyn fod yn anodd os oes staff yn cael prawf LFT positif yn y bore cyn dod i'r ysgol (gweler nodyn uchod am brofion LFT staff).

Rhag eich gorlwytho efo gwybodaeth ar unwaith a chan fod cymaint o newidiadau wedi bod yn ddiweddar yn genedlaethol am brofi'n bositif ac ynysu, bydd yna ohebiaeth arwahan yn dilyn ynglyn â'r drefn i'w dilyn os oes achosion positif mewn dosbarth.

Os oes efo chi unrhyw gwestiwn am yr uchod neu os am unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch efo'r ysgol.

Gyda diolch,

Osian Jones